# y dinesydd

Mawrth 1998 | PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH | Rhif 235

# CD Côr Plant Caerdydd


Llun: Robin Griffith

Wrth brynu carden ben-blwydd yr wythnos ddiwethaf roedd lleisiau pêr yn llenwi Siop y Felin yn yr Eglwys Newydd. Cefais fy atgoffa o noson hyfryd yng Nghapel Bethel, Rhiwbina, ym mis Medi pan gafodd y gynulleidfa wledd i'r glust yng nghwmni Côr Plant Caerdydd. Mae'r côr wedi bod yn swyno cynulleidfaoedd dros Gymru ers rhyw ddwy flynedd bellach mewn cyngherddau ac ar radio a theledu gyda Mair Robins yn arwain a Sandra Semmens yn cyfeilio ac yn awr gallwn fwynhau amrywiaeth o ganeuon dwys a doniol, llon a lleddf gydag ambell unawd trwy brynu CD newydd y côr sydd ar werth am £11.99 - ar gael hefyd ar gasét am £6.99.

Daw'r plant o ysgolion Cymraeg Caerdydd a'r Fro ac maent yn cael eu derbyn rhwng naw a phymtheg oed. Bu'r côr dros y bont i Fryste y llynedd a bydd ail ymweliad â'r ddinas honno cyn hir pan fydd y côr yn diddanu Cymdeithas Gymraeg Bryste. Yn yr Hydref bydd y côr yn mentro i Ewrop pan ânt i ddiddanu cynulleidfaoedd yn yr Almaen. Dymunwn "*gute Reise*" iddynt.

***Gwenda Francis***

## Emynau yn y Gymraeg yn Eglwys Gatholig Saint Brigid's, Caerdydd.

Fel rhan o weithgarwch Fforwm Cymru y Newyn, a sefydlwyd yn 1955 i goffáu'r 'Newyn Mawr' yn Iwerddon yn y 1840au, trefnwyd rhaglen yn y gyfres deledu S4C, 'Dechrau Canu. Dechrau Canmol', a gynhyrchir ac a gyflwynir gan y Parchedig Meurwyn Williams, o'r cwmni cynhyrchu annibynnol, Intrada. Recordiwyd y rhaglen nos Fercher, 4 Chwefror, yn Eglwys Gatholig 'St Brigid's', Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, a bydd y darllediad am 7.30 nos Sul, 15 Mawrth 1998. Daw y Sul hwnnw bythefnos ar ôl Dydd Gŵyl Ddewi a dau ddiwrnod cyn Dydd Gŵyl Padrig Sant.

Y cymhellion tu ôl i'r syniad hwn yw fel a ganlyn:

1) Dymunwn gofio yn gyhoeddus, gyda gweddïau ar gân, y bobl a fu farw yn ystod y Newyn Mawr.

2) Dymunwn gofio'r hunllef o newyn a'r afiechydon sy'n dilyn eisiau bwyd yn y Trydydd Byd heddiw.

(>tud 11)

## Diwrnod Corfforaethol

Cofiwch am Ddiwrnod Golff Corfforaethol *Y Dinesydd* a gynhelir ddydd Iau, 2 Gorffennaf. Cynhelir y gystadleuaeth ar gwrs Yr Eglwys Newydd ac os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Ceri Preece, d/o Hugh James (ffôn: 224871; ffacs: 388222).

Cost tîm o bedwar fydd £180 a chost unigolyn £45. Bydd hyn yn cynnwys ffi'r lawnt, bwyd a gwobrwyon safonol. Dim ond lle i 30 tîm fydd, felly gorau po gynta y gwnewch yn siwr o'ch lle.

Bydd yr holl elw yn mynd tuag at *Y Dinesydd*, sydd eleni yn dathlu 25 mlynedd ei sefydlu.

I'r rheiny ohonoch sydd yn olffwyr/wragedd fe fydd Cymdeithas Golff y Ddinas yn chwarae cwrs golff Castell-nedd ddydd Gwener, 24 Ebrill. Am fwy o fanylion cysylltwch â Ceri Preece.

Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd*, sef rhifyn Ebrill/Mai, yn rhifyn arbennig iawn, oherwydd gyda'r rhifyn hwnnw bydd *Y Dinesydd* yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 mlwydd oed.

Bwriadwn gynnwys atodiad sylweddol yn y rhifyn hwnnw a fydd yn edrych yn ôl dros y chwarter canrif ddiwethaf yn hanes y papur a bywyd Cymraeg y ddinas.

Rhagwelwn y bydd nifer o gyfeillion *Y Dinesydd* o fyd busnes yn dymuno hysbysebu yn y rhifyn arbennig hwnnw. Dylent gysylltu rhag blaen â'r Swyddog Hysbysebion, sef Catrin Lloyd Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (01222-598243).

**Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol *Y Dinesydd* nos Iau, 21 Mai 1998**

am 7.30pm yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.

Dewch yn llu i gefnogi eich papur bro!

**Sylwer!** **Pwysig!**

# Y Dinesydd

**Mawrth 1998, Rhif 235.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Ebrill/Mai at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 17 Ebrill:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475).
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................

............................................ Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: ..........................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................

............................................ Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: ..........................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 16 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Bywyd a Marwolaeth Celloedd'. Darlith gan Dr Maureen Bowen (UWIC), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 17 Mawrth**
Côr y Tabernacl yn perfformio *Mab y Dyn* gan Arwel Hughes, yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais am 7.30 p.m. Tocynnau wrth y drws (£3).

**Mercher, 18 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Cwis Cymru a'r Cymry dan ofal Catherine Jobbins, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

**Iau, 19 Mawrth**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Gwraig wadd: Ray Phillips, 'Blwyddyn fel Arglwydd Faeres Dinas Caerdydd'.

**Gwener, 20 Mawrth**
**Cylch Llyfryddol Caerdydd: Noson i Ddathlu Pen-blwydd *Y Dinesydd* yn 25 mlwydd oed, yn theatr Capel y Crwys, Richmond Rd., am 7.00 p.m. Arweinydd y noson: Robin Jones. Ymhlith y cyfranwyr: Mallt Anderson, W. J. Jones, Cen Williams.**

**Mercher, 25 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Gafin Morgan, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Mercher, 25 Mawrth**
Yr Wylfa Ieithoedd: Cyfarfod cyhoeddus dan arweiniad yr Athro Colin Williams ar y testun 'Amlieithedd yng Nghymru a'r Byd', yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, am 7 p.m.

**Llun, 6 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Eisteddfod, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 6.30 p.m.

**Gwener, 10 Ebrill**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Gwasanaeth Gwener y Groglith yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 2.00 p.m.

**Llun, 20 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Sgwrs gan Ted Edwards, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mawrth, 21 Ebrill**
Cymrodorion y Barri: Noson y Llywydd, Elwyn Jones, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.

**Mercher, 22 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Dathlu'r Pasg, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Mercher, 22 Ebrill**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Cyfarfod Blynyddol, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

**Sul, 26 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cymanfa Ganu dan arweiniad Alun Guy yn Eglwys Beulah am 8.00 p.m.

**Mercher, 6 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Gareth Williams, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Sadwrn, 9 Mai**
Ysgol Undydd: 'Iechyd ac Afiechyd yng Nghymru, *c.* 1846-1950', yn Adeilad y Dyniaethau, Prifysgol Caerdydd. Siaradwyr: Dr Paul O'Leary, Yr Athro Aled Gruffydd Jones, Yr Athro John Davies, Dr Robert Smith. Cynullydd: Yr Athro John Gwynfor Jones. Tâl: £15. Manylion pellach: 01222-874832.

**Llun, 11 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Ymweliad ag Amgueddfa Crochendy Nantgarw.

**Iau, 14 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Perthnasedd Cymru i Ewrop' gan Stephan Thomas ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30 p.m.

**Gwener, 15 Mai**
Bwrdd yr Iaith Gymraeg: Cynhelir cyfarfod o'r Bwrdd, a fydd yn agored i'r cyhoedd, yng Nghaerdydd. Manylion pellach: 01222-224744.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Angen Gwirfoddolwyr

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i warchod Arddangosfa Celf a Chrefft Bro Ogwr 1998. Yr amcan yw llunio cofrestr o garedigion Celf a Chrefft a fydd yn barod i hwyluso a hwyrach helpu'r cyhoedd i werthfawrogi'r gweithiau yn yr arddangosfa. Os ydych chi'n dymuno ymuno â thîm o gymwynaswyr Celf a Chrefft yr Eisteddfod Genedlaethol, cysylltwch â: Robyn Tomos, Swyddog Celf a Chrefft, Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd. CF4 5WU. Ffôn 01222 763777.

## Sioe Lwyfan Phyl a Ieu

Mae Cwmni Canol y Ffordd, sydd â'i bencadlys yng Nghaerdydd, wedi penderfynu mynd â sioe adloniant ysgafn ar daith o gwmpas Cymru. Dyma gyfle gwych i'r holl deulu fwynhau noson o adloniant byw Cymraeg.

Nos Fercher, 8 Ebrill, bydd y sioe a noddwyd gan Fanc y Midland yn cyrraedd Theatr y Coliseum, Aberdâr. Yn cadw cwmni i Ieuan Rhys a Phyl Harries bydd nifer o actorion o 'Pobol y Cwm', sef Toni Caroll, Beth Robert a Glan Davies. Hefyd bydd cantores ifanc o Lanelli, Karen Bowen, yn cymryd rhan ynghyd â phlant Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr.

Bydd y noson yn dechrau am 7.30 p.m. a gellir prynu tocynnau o Theatr y Coliseum (01685 881188).

## Yr Athro Sioned Davies

Yn rhifyn diwethaf *Y Dinesydd* adroddwyd bod yr Athro Glyn E. Jones wedi ymddeol o Gadair y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Y tro hwn, pleser mawr yw llongyfarch y Dr Sioned M. Davies ar gael ei phenodi i'r Gadair honno.



Brodor o sir Drefaldwyn yw'r Athro Davies. Graddiodd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf o Brifysgol Caerdydd yn 1976 a mynd oddi yno i Rydychen i astudio ar gyfer ei doethuriaeth, cyn dychwelyd i Gaerdydd yn 1979 yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg.

Mae'n awdurdod byd-eang ar chwedlau Cymraeg yr Oesoedd Canol, ac y mae ei llyfrau yn y maes hwnnw wedi ennill gwobrau pwysig. Ar hyn o bryd y mae'n gweithio ar gyfieithiad newydd i'r Saesneg o'r *Mabinogion* ar gyfer Gwasg Prifysgol Rhydychen. Hi hefyd yw ymgynghorydd cynhyrchiad 'Cartŵn Cymru' o'r cartŵn, *Y Mabinogi*, a gaiff ei ryddhau ar Ddydd Gŵyl Ddewi yn y flwyddyn 2000.

Mae'r penodiad hwn yn un hanesyddol, am mai dyma'r tro cyntaf erioed i ferch gael ei phenodi i Gadair Brifysgol yn y Gymraeg. Bu Adran Gymraeg Caerdydd yn un arloesol erioed. Ynddi hi y sefydlwyd y Gadair Gymraeg lawn gyntaf ym Mhrifysgol Cymru; hi oedd yr Adran Gymraeg gyntaf i ddysgu'r Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg; ac ynddi hi hefyd yr arloeswyd dysgu llenyddiaeth ddiweddar a beirniadaeth lenyddol. Priodol iawn felly yw mai yma yng Nghaerdydd y cafwyd y penodiad newydd arloesol hwn.

## Marw Enid Parry

Yn ddiweddar bu farw Enid Parry, gweddw Syr Thomas Parry, y cyn-Lyfrgellydd Cenedlaethol a chyn-brifathro Coleg Prifysgol Aberystwyth. Ganwyd Mrs Parry yng Nghaernarfon ond symudodd y teulu i Gaerdydd yn 1914 pan benodwyd ei thad, O. Picton Davies i swydd gyda'r *Western Mail*. Fe'i haddysgwyd yng Nghaerdydd, lle y graddiodd mewn Cymraeg a Cherddoriaeth yn y Brifysgol.

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina

Ted Edwards, Yr Eglwys Newydd, oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Chwefror o Gymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gyda chymorth sleidiau, rhoddodd ddarlith ddiddorol iawn ar gamlas Morgannwg. Y mae darnau o'r gamlas hon i'w gweld o hyd mewn rhannau o Gaerdydd.

## Ioan a Thipyn o Long

Un sy'n dringo'n uchel iawn ym myd actio'r dyddiau hyn yw Ioan Griffiths, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf. Cafodd ei ddewis i chwarae rhan un o'r morwyr allweddol oedd yn gyfrifol am un o'r badau achub yn y ffilm newydd *Titanic*. Mae Ioan yn dweud i hwn fod yn brofiad gwefreiddiol iddo. Treuliodd ychydig dros wythnos yn ffilmio gyda'r criw.

## HTV a'r Iaith Gymraeg

'United News and Media' yw enw'r cwmni a feddiannodd HTV ac mae wedi dechrau eisoes ar ei addewid i ddiogelu'r iaith Gymraeg trwy gynhyrchu un ffilm Gymraeg y flwyddyn a ddangosir mewn sinema i ddechrau ac yna ar rwydwaith ITV. Maen nhw'n bwriadu creu swydd newydd sef Pennaeth Datblygu Drama yng Nghaerdydd. Mae hyn yn argoeli'n dda.

## Marc a'i Ffilm

Yn ddiweddar ymddangosodd y ffilm, *Resurrection Man*, wedi ei chyfarwyddo gan Marc Evans, gynt o Riwbina. Ef hefyd a gyfarwyddodd y ffilm, *House of America* (Ed Thomas, Ystradgynlais) a gafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniaid. Mae ei rieni, Siarlys a Barbara Evans, yn dal i fyw yn Rhiwbina.

## Grant Iaith i'r Fenter

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi clustnodi grant o £7,515 am chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 1998/99 i Fenter Iaith Caerdydd. Mae hyn ar yr amod bod y Fenter yn llwyddo i ddod o hyd i gyllid cyfatebol. Bu'r Fenter mewn trafodaethau â Chyngor Caerdydd ac fe fyddan nhw'n cyflwyno cynllun busnes i'r cyngor er mwyn ceisio sicrhau'r arian ychwanegol o'r ffynhonnell honno. Y nod yw cyflogi Swyddog Datblygu ac Ymchwil. Os hoffech gysylltu â phwyllgor y Fenter gallwch wneud hynny trwy'r Cadeirydd, Richard Lewis, Tiwtor Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd ar 01222 874710.

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Un o gymdeithasau Cymraeg mwyaf llewyrchus y ddinas yw'r Gymdeithas Wyddonol. Mae'n cynnal ei chynhadledd flynyddol eleni ar 17-19 Ebrill yn neuadd UWIC yn Nhyllgoed, Caerdydd. 'Gwyddoniaeth Dinas' yw teitl y gynhadledd a bydd iddi bedair cainc, sef Amgylchedd, Diwydiant, Darlledu ac Ymchwil Pur. Ceir manylion pellach gan Eirian Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Gallwch ei ffonio ar 626811. Ei rhif e-bost yw **106646.1666@compuserve.com/**

## Dinas Powys

Nos Sadwrn, 31 Ionawr, cynhaliwyd Twmpath Dawns yn neuadd gymuned yr ardal. Trefnwyd y noson lwyddiannus hon gan Ferched Clwb Mabon, ac fe aeth elw'r noson, yn agos i fil o bunnoedd, tuag at y gwaith o gynnal gwasanaeth cysur a gofal yn Holme Tower, Penarth. Mr Rhodri Jones oedd yn galw'r dawnsfeydd a'r gerddoriaeth dan ofal offerynwyr Parti Dawnsio Gwtrin Caerdydd. Llywiwyd y noson yn ddeheuig gan Mrs Jill Lewis.

## Penarth

Mae Clwb Meithrin Ti a Fi wedi ailddechrau yn Ysgol Feithrin yr Enfys, Penarth a'r cylch. Mae'r cyfleusterau yma ar gael i rieni ieuanc bob prynhawn dydd Mawrth rhwng 1.45 a 3.15 pm. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn Neuadd Glyndŵr, Heol Glyndŵr. Ceir manylion gan Mrs Angharad Jones, rhif ffôn 707812.

## Y Barri

Mr Moc Rogers oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Cylch Cinio. "28 Ionawr 1948" oedd testun ei sgwrs a'r *Western Mail* y diwrnod hwnnw, hanner can mlynedd ynghynt, oedd ffynhonnell ei fyfyrdod a'i draddodi gogleisiol. Cyfeiriodd at ddiwyg diflas y papur, a'i agwedd faleisus at undebaeth, sosialaeth a Chymreictod. Er syched y crwstyn roedd ynddo ambell stori flasus, fel honno am y gêm rygbi lwyddiannus rhwng y Barbariaid ac Awstralia. Roedd ambell aelod yn y Cylch yn cofio'r achlysur. Roedd cynnwys y papur yn werth ceiniog y dydd i'r selogion. Talwyd gair o ddiolch gan Garwyn Davies.

## Y Cylch Llyfryddol

Dr E G (Tedi) Millward oedd siaradwr gwadd y Cylch yng nghyfarfod mis Ionawr. Gwyddom amdano fel un o'r bechgyn a ddysgodd Gymraeg dan Elvet Thomas yn Ysgol Cathays ac fel darlithydd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, lle y bu'n dysgu'r Tywysog Siarl, ac fel tad y llenor Andras a'r gantores Llio.

Un o'i ddiddordebau yw casglu cardiau post digri, cynnar a daeth â pheth o'i gasgliad i'w ddangos inni - rhai o ddiwedd y ganrif ddiwethaf i ddechrau'r ganrif hon.

Doedd dim lluniau ar y cardiau cynharaf - sgrifennid y cyfeiriad ar un ochr a'r neges ar y cefn. Yna cafwyd llun ar un ochr a'r cefn wedi ei rannu ar gyfer cyfeiriad a neges.

Ar gyfer Saeson a ddeuai ar ymweliad â Chymru y bwriedid y cardiau. Byddai nifer yn cyfeirio at y drafferth a gai'r Saeson gyda'r Gymraeg; cerdyn poblogaidd oedd hwnnw'n dangos mynegbyst ag enwau fel Llanfairmathafarneithaf a Llanrhaeadrymmochnant arnynt, ac wrth gwrs, yr orsaf yna ar Ynys Môn. Weithiau dangosid dyn mewn poenau mawr, wedi torri ei ên wrth geisio ynganu geiriau o'r fath.

Yr arfer oedd dangos pob Sais yn gwisgo siaced 'Norfolk', clos pen-glin a sanau hirion. Yn aml byddai merch brydweddol yn y llun, yn cynrychioli Cymru. Byddai het gopa dal ar ei phen neu yn y llun yn rhywle.

Wrth edrych ar y lluniau hyn heddiw bron na theimlwn weithiau fod yr arlunydd am wneud sbort am ein pen ni'r Cymry. Ai fel hyn y gwelai'r artist o Gymro ei wlad ei hun, tybed, neu ai ei unig fwriad oedd creu chwerthin i ddiddanu'r Saeson?

Diolchodd Llywydd y Cylch, Hywel Jeffreys, yn gynnes i Dr Millward am noson ddifyr iawn.

***D. Gwyn Jones***

## Côr Caerdydd yn y Tabernacl




Am yr ail flwyddyn yn olynol bydd Côr Caerdydd yn perfformio gwaith crefyddol ar gyfer y Pasg. Cynhyrchiad teledu o'r 'Croeshoeliad' gan Steiner oedd y gwaith y llynedd. Recordiwyd y perfformiad gan gwmni Opus yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ac fe'i darlledwyd ar S4C ddydd Gwener y Groglith.

Eleni mae'r côr yn newid cyfeiriad ychydig i berfformio 'Myfi Yw', gwaith Derec Williams, Linda Gittins a Penri Roberts, y triawd o bobl dalentog o Theatr Ieuenctid Maldwyn. Comisiynwyd yr oratorio i ddathlu pen-blwydd y cwmni hwnnw'n ddeg oed. Mae'n seiliedig ar Efengyl Ioan ac yn canolbwyntio ar wythnos y Pasg o'r orymdaith i mewn i Jerwsalem hyd at y croeshoelio. Dan arweiniad Gwawr Owen ac Euros Rhys, a fydd yn gyfrifol am y cerddorion, bydd 'Myfi Yw' yn gyfle i nifer o unawdwyr o blith y côr ddangos eu doniau lleisiol drwy bortreadu tri o'r prif gymeriadau. Bydd dau faswr o'r côr, sef Peredur Evans a Hugh Morris yn canu rhannau Pedr a Pilat ac Abigail Williams, soprano, fydd Llais Israel. Estynnwyd gwahoddiad i un o denoriaid disgleiriaf Cymru ganu rhan Iesu Grist, sef y tenor Aled Hall. Daw Aled yn wreiddiol o Bencader ger Caerfyrddin ac ar hyn o bryd mae'n canu fel unawdydd gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

Bydd y côr yn perfformio'r oratorio mewn nifer o gapeli ddiwedd Mawrth ac yn ddiweddglo i weithgaredd tymor y gaeaf bydd y cyngerdd olaf ar y Sul olaf cyn y Pasg, sef nos Sul, 5 Ebrill, yng nghapel y Tabernacl, Caerdydd. Bydd y perfformiad yn dechrau am wyth o'r gloch ac yn ogystal â'r oratorio perfformir dau waith arall sef 'Yr Arglwydd Yw Fy Mugail' gan Euros Rhys ac 'Ar Ben Mae'r Gogoneddus Waith' gan Haydn.

## Rhys a Thipyn o Sebon

Mae S4C yn llunio opera sebon ar gyfer plant dan saith oed. Ei henw yw Tŷ Rhys, ac mae'n naturiol gofyn pwy yw Rhys. Ei enw iawn yw Owain James. Bachgen ysgol o Gaerdydd ydyw, o Ysgol y Wern i fod yn fanwl gywir, ac mae'n wyth oed. Dyw teledu ddim yn newydd i Owain. Fe fu'n chwarae rhan yn 'Gŵyl y Baban' ar S4C yn 1996 ond dyma'i ran fawr gyntaf (o lawer, gobeithio!) Cymeriad arall pwysig yn y gyfres yw Mr Huws y parot, ac yn garedig iawn mae hwnnw wedi cytuno i bosio ar ysgwydd Rhys ar gyfer y llun hwn.



Owain James o Tŷ Rhys (S4C) a Mr Huws y parot

Mae Owain yn aelod o dîm dan naw oed Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd (CRICC) ac mae'n aelod ffyddlon o Gapel y Crwys, Heol Richmond. Mae'n fab i Leighton a Janet James o'r Mynydd Bychan ac yn ŵyr i Jeff a Ray Ann James o'r Eglwys Newydd a Denley a Lon Owen o Lanymddyfri. Ein llongyfarchion cynhesaf i Rhys a phob lwc iddo yn y dyfodol.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Y TABERNACL, CAERDYDD

### Y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

Arfer Ysgol Sul Tabernacl yw cynnal y parti blynyddol ddechrau'r flwyddyn newydd. Eleni fe ddaeth Siôn Corn am dro brynhawn Sadwrn, 10 Ionawr - ei ymweliad swyddogol olaf cyn dychwelyd i Wlad yr Eira am wyliau a blwyddyn brysur arall o baratoi anrhegion ar gyfer Nadolig '98. Penderfynodd plant Ysgol Sul y Tab eleni eu bod nhw wedi cael mwy na'u siâr dros yr Ŵyl ei hun ac fe ofynnon nhw i Siôn Corn fynd ag anrhegion oddi wrthyn nhw i blant nad oedd wedi bod mor ffodus. Gwyddai'r hen Siôn wrth gwrs am *Operation Christmas Child*. Os gwag oedd y sach yn cyrraedd y Tab, erbyn iddo adael y parti roedd hi'n orlawn o anrhegion, a aeth y diwrnod canlynol i blant yng ngwlad Bosnia. Diolch i'r plant am eu haelioni a diolch yn arbennig i arolygwyr yr Ysgol Sul, Sarah Reed a Siân Thomas am drefnu'r achlysur cofiadwy hwn.



Y Parchedig Denzil John yng nghwmni rhai o blant Ysgol Sul y Tabernacl a'r anrhegion a gasglwyd ar gyfer plant Bosnia.

### Cwis

Nos Fercher, 27 Ionawr teithiodd tîm o blant dan 11 oed i Gaerfyrddin i gystadlu yn rownd derfynol cwis y Cyngor Ysgolion Sul. Wedi eu hyfforddi gan Eira Jones, enillodd y tîm yr hawl i gystadlu trwy ennill rownd ragbrofol de-ddwyrain Cymru ym Mhenybont cyn y Nadolig. Cafwyd cystadleuaeth frwd a gwybodaeth y bobl ifainc yn ddigon i ryfeddu ati. Enillwyd yr ornest gan Glwb Hwyl Hwyr Aberystwyth gyda thîm y Tabernacl yn ail. Llongyfarchiadau mawr i Steffan Messenger, Siôn Lewis, Alice Reed a Rhys ab Owen. (Gyda llaw, does dim gwirionedd yn y si i'r dathlu fynd dros ben llestri ac iddyn nhw gael eu gwahardd o McDonalds, Cross Hands ar y ffordd adref!)

## MINNY STREET

Ers dechrau'r flwyddyn rydyn ni wedi cael y fraint o groesawu nifer o aelodau newydd i'n plith ynghyd â thystio i fedydd Emyr Roderic Owen, mab Jennifer a David Rees.

Yng nghyfarfod y plant ddechrau Chwefror, rhoddwyd sylw arbennig i ymgyrch yr Annibynwyr ar y cyd â Chymorth Cristnogol tuag at De Swdan. Cymerwyd rhan gan nifer o blant a chafwyd anerchiad gan Mr Iwan Jones i'n goleuo am yr angen yn y rhan arbennig hon o'r byd a'r modd y gallwn gynorthwyo. I gloi yr oedfa canwyd "Cân Swdan" gan Nia Young, ac erys sain a naws y gân a'r dehongliad yn hir iawn yn y cof.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i gael tymor llwyddiannus - John Huws yng nghwmni'r Tylwyth Teg; Mallt Anderson a Myfanwy Jarman yn twrio drwy ddrâr y seld (a ninnau yn cael cwmni nifer o'u cyd-aelodau o'r Crwys yn y gynulleidfa), a phen llanw misoedd o ymarfer dygn (?!) yn "Yr Eisteddfod" a drefnwyd gan Aled a Menna Gwyn. Heb os bu'r noson yn fwynhad pur gyda beirniadaethau Margaret Roberts yn ychwanegu at lwyddiant y noson. Mawr yw ein diolch iddi hi, ac i Ifan Roberts fu'n cynorthwyo gyda'r adran lên.

## EGLWYS UNDODAIDD WEST GROVE

Bu'r gynulleidfa yn Eglwys Undodaidd West Grove yn dyst i weithred symbolaidd ddiddorol yn ystod y gwasanaeth Cymraeg ar 11 Ionawr eleni. Cyflwynwyd copi o lyfr emynau newydd yr enwad *Y Perlau Moliant Newydd* i'r gweinidog, y Parchg Eric Jones, gan aelod ifancaf y gynulleidfa, Rhun Dafydd. Wrth dderbyn y copi atgoffodd Mr Jones ei gynulleidfa fod yr Undodiaid wedi cyhoeddi rhyw bymtheg o wahanol gasgliadau o emynau Cymraeg oddi ar y ddeunawfed ganrif. Mae'r casgliad diweddaraf hwn yn cynnwys 350 o emynau, a'r pwyslais bellach ar emynau cyfoes. Er hyn, mae emynydd Undodaidd enwocaf Caerdydd a'r cylch - neb llai nag Iolo Morganwg - yn dal yn gyfrifol am 23 ohonynt.



Y Parchg Eric Jones (gweinidog) a'r Parchg Roy John (cyn-weinidog) ynghyd â rhai o aelodau ifainc Eglwys West Grove ar achlysur derbyn y copi cyntaf o'r *Perlau Moliant Newydd*.

## BETHEL, PENARTH

Ddydd Sul, 1 Chwefror derbyniodd yr Eglwys rodd o biano er cof am Mr Ellis Griffiths, un o aelodau annwyl Bethel, a gollwyd yn ddiweddar.

## BETHEL, RHIWBINA

Fore Sul, 18 Ionawr, cafodd Elan Mai, merch Angela a Mark Parry Lowther, Ffordd Cae Mawr, Rhiwbina, ei bedyddio gan y Parch. D Haydn Thomas.

## EBENESER, CAERDYDD

Bu aelodau Eglwys Ebeneser, Caerdydd wrthi'n ddiwyd trwy gydol 1997 yn casglu arian at eu helusen ddewisedig, sef Ymchwil Cancr Cymru, Ysbyty Felindre. Yn oedfa'r bore, ddydd Sul, 1 Chwefror 1998 cyflwynwyd y siec am £6,142.59 gan y gweinidog, Y Parchg Alun Tudur i gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Felindre, sef Mr Colin Burbage, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, a Mr Tom Edwards.

Ar nos Fawrth, 10 Chwefror 1997 cafodd Cymdeithas Ebeneser noson ddifyr iawn, gyda phlant a ieuenctid yr eglwys yn cynnal noson o ganu, canu offerynnau, llefaru a pherfformiadau eraill. Llywyddwyd y noson gan Mr Arwel Peleg Williams.

# YSGOL GLANTAF

## Nofio



Cynhaliwyd Gala Nofio'r Urdd yn Abertawe ddydd Sadwrn, 7 Chwefror. Tîm y bechgyn iau oedd Aled Evans , Gareth Jenkins, Luke Maxwell a Gethin Thomas ac enillon nhw ddwy fedal arian, un am y ras gyfnewid dull rhydd, ac un am y ras gyfnewid gymysg. Enillodd Luke Maxwell fedal efydd yn y ras Pili Pala. Tîm y bechgyn hŷn oedd Rhys Brame, Gareth Lewis, Gareth Jenkins a Gareth Thorning a daethon nhw yn bedwerydd yn y ddwy gystadleuaeth gyfnewid. Enillodd y merched hŷn, Melanie Morris a Claire Tucker, fedal arian am y timoedd cyfnewid. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

## Rygbi

### Cystadleuaeth 7 bob ochr Millfield

Cafodd carfan Glantaf (dan 16) fuddugoliaeth ysgubol yn y gystadleuaeth hon eleni. Braint yw derbyn gwahoddiad gan Ysgol Millfield i gystadlu heb sôn am ennill y gystadleuaeth! Curodd Glantaf Ysgol Millfield yn y rownd derfynol o 12 pwynt i 7 gan selio buddugoliaeth fythgofiadwy.

**Aelodau'r Garfan**

| | |
|---|---|
| Nicky Robinson (Capten) | Rhodri Hanmer |
| Geraint Rees | Tim Gibbs |
| Elgan Jones | Geraint Rees |
| Khal Salim | Damon Howden |
| Hywel Llyr | Geraint Williams |
| Daniel Salter | Alun Bonello |

### Capiau Cymru



Yn dilyn misoedd o baratoi ac ymarfer fel carfan fawr, chwaraeodd pedwar o ddisgyblion blwyddyn 11 yn y prawf terfynol ar faes Sain Helen, Abertawe, fore Sadwrn, 7 Chwefror. Dewiswyd tri ohonynt, Tom Roberts (cefnwr), Geraint Williams (asgellwr) a Nicky Robinson (maswr) i gynrychioli Cymru (o dan 16) yn erbyn Lloegr yn Twickenham ddiwedd mis Mawrth.
Llongyfarchiadau i'r tri.

### Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Clwb Rotari

Siarad cyhoeddus i'r mwyafrif yw llefaru o flaen y cyhoedd, ond cawsom fwy na hynny nos Fercher, 3 Chwefror. Gwrandawodd cynulleidfa sylweddol a thri o feirniaid ar wledd o berfformiadau gan dimau pum ysgol o dde ddwyrain Morgannwg, pob un yn trafod yn drylwyr bynciau llosg yr oeddent yn teimlo'n gryf drostynt - neu yn eu herbyn. Tîm o Ysgol Glantaf a gipiodd yr holl wobrwyon oedd yno i'w hennill. Enillon nhw'r wobr am y grŵp gorau gydag Ysgol Gymraeg Llanhari yn ail agos ac felly mae'r ddau dîm yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf yn erbyn timau eraill o dde Cymru.

Y pwnc a ddewisodd Glantaf oedd, 'Caerdydd, cartre'r Cynulliad'. Wedi dadleuon cryf gan Leah Jones o blaid y datganiad ac Elen Mair Thomas yn erbyn, llwyddon nhw i gipio'r gwobrau am y siaradwr unigol gorau, Leah yn ennill y wobr gyntaf gydag Elen yn ail agos. Sara Roberts, eto o Lantaf, a gipiodd y wobr am y cadeirydd gorau wedi cyflwyno'r ddwy siaradwraig yn broffesiynol a llwyddo i gadw'r ddwy a oedd â theimladau cryfion tu hwnt ynglŷn â'r pwnc rhag dadlau gormod a mynd yn rhy bell!

Er bod rhaid canmol y tair, sy'n siŵr o lwyddo mewn rhyw faes yn y cyfryngau neu mewn gwleidyddiaeth ryw ddydd, am eu perfformiad gwefreiddiol, mae'n rhaid canmol yr ysgolion eraill - Y Cymer, Gwynllyw, Llanhari a Rhydfelen - a roddodd gryn her iddynt. Roedd hi'n noson i'w chofio.

*Catrin Mears*

# Gŵyl Glantaf '98

Môr o las, gwyrdd, melyn a choch; cystadlaethau pêl-droed, rygbi, pêl-fasged, pêl-rwyd, hoci, nofio, tenis bwrdd ... ; lleisiau plant yn diasbedain â banllefau 'Dewi', 'Illtud', 'Dyfrig', 'Teilo'; canu, llefaru, canu offerynnau; Gŵyl Glantaf!

Eleni eto daeth yr ysgol gyfan ynghyd i Ganolfan Gerddi Soffia i fwynhau un diwrnod o chwaraeon ac un diwrnod o eisteddfod. Bu'r disgyblion wrthi'n ddiwyd yn cymryd rhan yn y gwahanol gystadlaethau ac yn cefnogi eu llysoedd. Llys Illtud oedd enillwyr Tlws y Chwaraeon a llys Dewi gipiodd Dlws yr Eisteddfod. Llys Dewi hefyd oedd llys buddugol yr ŵyl gyfan.

Cafwyd seremoni gadeirio urddasol o dan arweiniad Mrs Eleri Jones gyda'r prifathro, Mr Huw Thomas, yn archdderwydd. Enillydd teilwng y gadair eleni oedd Sara Roberts a dderbyniodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad, y Parch T J Davies. Jenny Palmer enillodd y Tlws Saesneg a Mali Llywelyn oedd enillydd Llenor yr Ysgol Isaf. Wrth i lys Dewi ddathlu eu llwyddiant ddiwedd prynhawn dydd Gwener roedd pawb yn gytûn i Ŵyl Glantaf eleni eto fod yn achlysur i'w gofio.



Meilir Dafydd, Hywel Williams, Elan Gest, Mr Huw Thomas (Prifathro)
Trystan Francis, Lowri Jones,
Jenny Palmer, Parch. T.J. Davies, Sara Roberts, Mali Llewelyn

*Llun Robin Griffith*

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## Ysgol Melin Gruffydd

### Nics Nain


Ddydd Mercher, 11 Chwefror, fe gafodd plant Melin Gruffydd ddiwrnod i'r brenin - dyma'r uchafbwyntiau. Dechreuodd y cyffro pan dderbyniodd Mrs Robins, ein Prifathrawes, lythyr gan Nics Nain yn gofyn a fydden ni'n fodlon cymryd rhan yn y rhaglen. Gwirionodd Mrs. Robins â'r syniad. Dyma ddechrau creu posteri a chasglu mascots - sôn am dwrw!!!

Dyma'r diwrnod mawr wedi cyrraedd, pawb yn ysu am fynd - onibai am Mrs Lloyd, ein hathrawes, oedd yn gorfod cystadlu hefyd!! Tua hanner awr wedi naw yn y bore cyrhaeddon y stiwdio. Ar drothwy yr adeilad fe ddaeth menyw a dechrau rhoi gwersi bloeddio a bod yn ddwl i ni, er doedd dim rhaid i bawb gael gwersi!! Tu mewn i'r adeilad cwrddon ag Ysgol Gymraeg Caerffili, melyn oedd eu lliw nhw.

" Pwy ydy'r gorau?" gwaeddodd un fenyw.
"Melyn!" gwaeddai Ysgol Caerffili.
"Pwy ydy'r gorau?" gwaeddodd menyw o'r gornel.
"Glas!" bloeddiai Melin Gruffydd.

Yna aethon i mewn i'r stiwdio ac ar ôl un neu ddau o ymarferion fe ddechreuodd y ffilmio. Yn anffodus i Melin Gruffydd, roedd rhaid dal lan ag Ysgol Caerffili a oedd dair eiliad ar y blaen. Ar ôl mynd trwy'r cwrs gyda'r cystadleuwyr, fe ddechreuon.

Canodd yr hwter. Sgrialodd y ddau gystadleuwr lawr y ramp, gan sboncio yn y pwll oedd yn llawn o swigod, edrych am yr ymbarel a ffrwydro'r balŵn. Roedd Melin Gruffydd ar y blaen!! Pegio Nics Nain ar y lein, tagio'r cystadleuydd arall a dringo lan rhwyd cargo yn chwim, i lawr y sleid fel bwled, cerdded yn ofalus ar draws y si-so, ymbalfalu am Nics Nain yn y bocs, eu gwisgo a rhedeg trwy'r darn papur. HWRÊ, MELIN GRUFFYDD WEDI ENNILL!!!



Cafodd disgyblion adran y Plant Bach gyfle i fynd allan o'r ysgol ar ymweliadau diddorol yn ystod y tymor.





Aeth Blwyddyn 1/2 i Asda a dysgu sut mae'r archfarchnad fawr honno yn gwneud bara. Roedd gweithwyr Asda wrth eu bodd yn cwrdd â'r Cymry Cymraeg bychain hyn a oedd hefyd yn medru'r Saesneg. Bu'r plant yn ysgrifennu am eu profiad ac yn anfon llythyrau o ddiolch wedi'r diwrnod mawr.

I gapel Bethel yn Rhiwbina aeth Blwyddyn 2. Dyma'r tro cyntaf rai o'r plant fod mewn capel erioed; felly, roedd yn brofiad gwerthfawr iddynt. Cafwyd amser da yno. Bu Mr Thomas y Gweinidog yn sgwrsio â nhw ynglŷn â gwahanol agweddau o waith yr eglwys. Pleser oedd cael gwrando ar y plant yn darllen, gweddïo a dweud adnodau.

## Cwlwm Busnes Caerdydd

Nod ac amcan Cwlwm Busnes Caerdydd, sef cymdeithas o bobl fusnes Caerdydd a'r cyffiniau, yw codi proffil y Gymraeg ym myd busnes yn y brifddinas a de-ddwyrain Cymru. Rhydd gyfle i Gymry Cymraeg sydd mewn busnes o bob math gwrdd a thrafod materion yn ymwneud â busnes drwy gyfrwng y Gymraeg.

Eisoes bu cyfarfod agoriadol 1998 - a chyfarfod diddorol a gafwyd, nid yng ngwesty Churchills, Llandaf, yn ôl yr arfer ond yn hytrach yn Sain Ffagan. Ar wahoddiad Anturiaethau Coginiol, cwmni anturus Ifan Payne a Margaret Rees, teithiodd nifer dda i Ganolfan Goginiol Cymru nos Iau, 12 Chwefror. Gan fod Ifan yn Filzmoos, Awstria, yn gofalu am yr Ysgol Goginiol Alpaidd yno, croesawyd aelodau Cwlwm gan Margaret Rees. Wedi cael eu tywys o amgylch y ganolfan a gweld yr adnoddau diweddaraf gogyfer â chanolfan o'r fath daeth pawb at ei gilydd i fwynhau orig (a mwy) o flasu gwin a bwydydd o Awstria. Soniodd Margaret am yr Ysgol Goginio gyda theatr bwyd lle y cynhelir cyrsiau coginio.

Esboniodd sut y byddai'r Gegin Arbrofi yn denu arbenigwyr rhyngwladol a hynny yn esgor ar fwy o ymchwilio a datblygu ryseitiau. Cafodd aelodau Cwlwm wybod am y Cyfleusterau Bwyta Preifat y gellir eu harchebu ar gyfer grwpiau neu weithgareddau arbennig. Mae'n siwr bod pawb o aelodau Cwlwm Busnes Caerdydd a darllenwyr *Y Dinesydd* yn dymuno pob llwyddiant i Margaret ac Ifan yn eu menter. Mae'n fenter gyffrous a braf yw cofnodi mai menter tairieithog yw hon a'r Gymraeg yn cael lle blaenllaw.

Cynhelir Cinio Blynyddol Cwlwm nos Iau, 19 Mawrth, ac eisoes gwerthwyd pob tocyn - a hynny am y bumed flwyddyn o'r bron! Rhodri Morgan, Aelod Seneddol Gorllewin Caerdydd fydd y gŵr gwadd ac mae'n siŵr y cawn wybod ei syniadau am y Cynulliad a ninnau erbyn hynny yn gwybod am ei leoliad. Noson ddifyr, mae'n siŵr, ac fe geir hanes y noson yn y rhifyn nesaf.

Nos Iau, 18 Mehefin, anerchir y Cwlwm Busnes gan Rhian Anwen Roberts a hithau yn Gyfarwyddwr Prosiect Canolfan Mileniwm Cymru. Cynhelir y cyfarfod hwn yng ngwesty Churchills, Llandaf, am 6.00 o'r gloch a darperir lluniaeth ysgafn yn ôl yr arfer.

Y mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ym myd busnes i ymuno â Chwlwm Busnes Caerdydd. Croesewir aelodau unigol ac y mae telerau arbennig ar gyfer aelodaeth gorfforaethol i gwmnïau. Ceir ffurflen aelodaeth drwy gysylltu â Bethan Vaughan Cartwright (373222) neu Ceri Preece (224871).

***Ceri Preece***

## Teyrnged o Ariannin

*Derbyniodd* Y Dinesydd *y deyrnged ganlynol i Shân Emlyn oddi wrth Mrs Alwina Thomas, Buenos Aires:*

'Mawr yw'r ddyled sydd arnom ni, fel Cymdeithas Cymry Buenos Aires ac felly yn y Wladfa, i'r "llysgenhades gyfeillgar hon". Yn ffodus medrai arwain a helpu ymwelwyr o Gymru i adnabod y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia – rhai yn edrych am berthnasau ac eraill yn awyddus i gwrdd â disgynyddion y fintai gyntaf honno a ddaeth i Batagonia dros 132 o flynyddoedd yn ôl. Cofiwn bob amser am bresenoldeb Shân pan oedd yma yng nghwmni ymwelwyr o Gymru. Ar ôl yr ymgomio a'r bwyta, fe fyddai Shân yn ein swyno â chân, ac yr oedd hyn at ddant pawb yn y cwmni. Trist oedd derbyn y newydd amdani, a sylweddoli fod yr "ehedydd" wedi esgyn i fyny i'r awyr las – a Duw a estynnodd ei law a'i chadw hi ymhlith ei drysorau.'

Annwyl Olygydd

"Agorwyd Ysgol Gymraeg Caerdydd ar fore Llun, 5 Medi 1949 am 9.10 o'r gloch" - dyna eiriau Mrs Enid Jones Davies, Prifathrawes gyntaf yr ysgol yn llyfr cofnodion yr ysgol. Mynychodd deunaw o ddisgyblion yr ysgol y bore cyntaf hwnnw ac erbyn hyn y maent hanner canmlwydd yn hŷn! Ffurfiwyd pwyllgor i drefnu dathlu sefydlu'r ysgol a bwriadwn gyhoeddi llyfryn i grynhoi'r hanes.

Os oes gan unrhyw un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* atgofion am y cyfnod cynnar hwnnw neu luniau y byddai'n dda eu cynnwys yn y llyfryn, a fyddent mor garedig â'u cyflwyno i sylw unrhyw un o aelodau'r pwyllgor a restrir isod? Does dim ots pa mor fyr yw'r atgofion, bydd pob atgof yn gymorth i adlewyrchu'r hanes. Cymerir pob gofal o unrhyw luniau a gyflwynir i'n gofal ac fe'u dychwelir wedi cyhoeddi'r llyfryn.

Gan ddiolch am bob cymorth.
Yn gywir iawn,
Iolo Walters.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Iolo Walters | 612947 | Ethni Jones | 01446 760383 |
| Gwenda Francis | 626774 | Iwan Guy | 01446 773425 |
| Sian Thomas | 693909 | | |

## Penodiad Newydd

Yn ddiweddar penodwyd Illtud Harri, 25 oed, o'r Eglwys Newydd yn Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cyn hynny bu'n gweithio i Gwmni Surrexit yn ddirprwy olygydd Sgrin, sef cylchgrawn S4C. Pob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd, ddiddorol.

## Grwpiau pop ar y Brig

***Catatonia***

Mae'r grwp Catatonia wedi cyrraedd y deg uchaf yn y siartiau pop Prydeinig. Bu dau aelod o'r grŵp yn sgwrsio gyda Beti George ar "Beti a'i Phobol" yn ddiweddar. Bu Cerys Matthews yn ddisgybl mewn ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd cyn i'w theulu symud i Abertawe i fyw. Bu Owen Powell yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Glantaf. Pob hwyl iddyn nhw yn y dyfodol.

***Super Furry Animals***

Mae'r Super Furry Animals, grŵp arall sy'n denu sylw yn y siartiau Prydeinig, yn rhyddhau albwm newydd yn yr hydref. Mae dau aelod o'r grŵp sef Huw Bumford a Guto Price, yn gyn-ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Glantaf.

***L'Heritage des Celtes***

Mae Elaine Morgan, gynt o Dredelerch, Caerdydd, yn gantores gyda'r grŵp uchod. Mae'n boblogaidd iawn yn Ffrainc ac mae eu halbwm diweddaraf, *Finisterres* yn uchel iawn yn siartiau canu pop Ffrainc. Yn 1996 cawson nhw eu dewis i gynrychioli Ffrainc yng nghystadleuaeth Eurovision gan greu cynnwrf yn Ffrainc am eu bod wedi dewis canu yn Llydaweg. Yn anffodus i ni dydy'r grŵp erioed wedi perfformio ym Mhrydain - ond gallwn ddal i ddisgwyl.


## Rhodd i Brynu Offer

Yn ddiweddar derbyniodd Cylch Meithrin yr Hen Gapel, yn Adamsdown gymhorthdal o £2,829 gan Fwrdd Elusennau y Loteri Genedlaethol at brynu offer newydd.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## Rygbi



### ER COF

Bu farw Rygbi Rhyngwladol Cymru, Chwefror 21ain, 1998, ar "glwt bresych Bili Williams" a elwir heddiw yn Faes Rygbi Twicenham. Nid oes unrhyw ffordd gall arall o ddisgrifio'r pedwar ugain munud y prynhawn hwnnw yn Llundain pan sgoriodd y Saeson wyth cais a thrigain pwynt yn erbyn Cymru. Nid oedd chwe phwynt ar hugain Cymru'n brawf o unrhyw wir ymdrech i achub y genedl rhag y bedd, er bod pedwar cais yn ei sgôr. Ar ôl pedwar munud ar hugain yr oedd dau o'r deuddeg cais wedi eu sgorio, a'r ddau gan Alan Bateman, y canolwr y dywedid amdano ar y pryd oedd canolwr gorau'r byd. Dywedid hefyd mai gennym ni yr oedd mewnwr gorau'r byd, sef y capten, Robert Howley. Ond yn y chwarter awr oedd yn weddill cyn y seibiant, sgoriodd Lloegr bedwar cais, yr ail ohonynt trwy hyrddio o lein bum metr o'r llinell gais, a'r pedwerydd trwy wthio ein sgrym dros y llinell o bum metr. Yn y ddau gais hynny y mae'r gwir reswm am y grasfa - nerth, nwyfiant a chaledwch blaenwyr Lloegr a'n llwyr reolai, ac y mae'n rhaid gofyn yr un cwestiwn a ofynnwyd droeon o'r blaen gennyf - pam nad ydyw'r chwaraewyr - a'n blaenwyr yn enwedig - yn ddigon nwyfus a chryf i gystadlu â Seland Newydd, De Affrica, Awstralia, Ffrainc - ac erbyn hyn Lloegr? Bu diffyg ymroddiad yn yr ornest hon, gwaetha'r modd, ond anodd yw ymroi heb y rhinweddau corfforol. Rhaid gofyn cwestiwn arall yn awr: ai ar y chwaraewyr y mae'r bai am eu cyflwr corfforol - a oes arweiniad gan yr hyfforddwr a'r rhai sydd o'i gwmpas, megis Cyfarwyddwr Nwyfiant, David Clarke, a Chyfarwyddwr Hyfforddi, John Bevan?

Cyn diwedd yr ornest drychinebus hon, yr oedd cryn nifer o'r gohebwyr (y rhai o Gymru, hynny yw) yn lloc y wasg, yn awyddus i gael gwared ar Kevin Bowring - hwnnw oedd yn bennaf gyfrifol am y llanastr. Dim sôn am y chwaraewyr. Ni allwn i gytuno â'r farn honno ar y pryd, ac yn wir ni wyddwn ddiwrnodau ar ôl yr ornest ai dyna y dylid ei wneud; yn sicr, yr oedd yn rhaid gwneud rhywbeth go hynod cyn dewis a pharatoi'r tîm a wynebai'r Alban ymhen y pythefnos. Cadwn i'r hyfforddwr, debyg, ond newidiwn o leiaf hanner y tîm - y cefnwr, y maswr a phedwar o'r blaenwyr, gan gynnwys y ddau glo'n bendant. Erbyn hyn, gŵyr pawb ba newidiadau fu, felly rhaid ei gadael hi a bwrw golwg ar bethau eraill.

Gan nad oes dyfodol disglair inni yn y byd proffesiynol llawn (tybed a oes dyfodol o gwbl), y mae dau ddewis o'n blaenau - naill ai bod yn chwaraewyr proffesiynol rhan-amser, neu roi'r gorau i'r gêm yn gyfan gwbl ar wastad rhyngwladol. Dilewyrch fu'r canlyniadau trwy'r 80au, trychinebus trwy'r 90au, a dyn a wyr ba ansoddair y gellid ei ddefnyddio ar gyfer y ganrif newydd. Peth annymunol iawn i mi yw derbyn awgrym o Loegr ar gyfer datrys unrhyw broblem, ond dylid ystyried o ddifri yr hyn a gynigiodd Cliff Brittle, un o uwch-swyddogion undeb y wlad honno, yn ei bapur nas trafodasid gan ei undeb pan ysgrifennwn i'r geiriau hyn. Dylai fod 24 yn unig o glybiau proffesiynol yn Lloegr, a dylai fod Pencampwriaeth Amatur i'r Pum Gwlad. Beth am hyn - i'w glodfori? Ie'n bendant: nid hollol amatur a ddywedwn i, ond timau rhyngwladol lled-amatur - fel y buont gynt, ond câi'r chwaraewyr dderbyn rhywfaint o arian yn hollol gyfreithlon ac nid yn y dirgel megis cynt. Byddai gobaith i ni wedyn. Oni ddaw rhyw newid chwyldroadol, rhaid inni wynebu'r sefyllfa nad enillwn ni ddim o bwys byth eto. Ac ychwanegu at ein trallod, darllener y rhestr hon: A J F O'Reilly; S Bianco; W J McBride; C M H Gibson; J-P Rives; M Ella; C E Meads; H Porta; F du Preez; D Craven; G Nepia; a'r pedwar hyn: G O Edwards; B John; J P R Williams a C I Morgan.

Dewis ysgrifenwyr a sylwebyddion ledled y byd oedd hwn gogyfer ag Oriel yr Anfarwolion ym Mharc Eden, Auckland, ac o bosibl Stadiwm Newydd Gwerin Cymru - y pymtheg gorau a fu erioed, a phedwar o'n cenedl ni yn eu mysg. Fel y syrthiodd y cedyrn.

## Pêl-droed



Bu'n flwyddyn anodd a dweud y lleiaf i glwb pêl-droed Caerdydd. Wedi cyrraedd gemau ail gyfle ddiwedd y tymor diwethaf a cholli yn erbyn Northampton o dan arweiniad Kenny Hibbitt a Russel Osman ac wedi gwario'n helaeth roedd disgwyl am ddyrchafiad y tymor hwn.

Nid felly y bu a diswyddwyd Osman. Anodd rhesymu pam. Ers tri mis ar ddeg Hibbitt fu'n hyfforddi, yn dewis ac yn penderfynu ar dactegau'r tîm ac eto tra bydd Hibbitt yn aros i ddatblygu ieuenctid y clwb roedd Osman druan ar y clwt. Nid bod canlyniadau wedi gwella gyda'r tîm yn creu dipyn o record yn y drydedd adran wrth sicrhau cymaint o gemau cyfartal.

Mawr fu'r darogan ynglyn â rheolwr newydd ac yn y diwedd yr enwau amlwg oedd yn cael eu hystyried oedd y cyn reolwr ar Barc Ninian, sef Frank Burrows, a rheolwr Merthyr, Colin Addison. Y teimlad cyffredinol unwaith eto oedd na fu'r clwb yn ddigon uchelgeisiol ac na fyddai penodiad o'r fath yn cydio yn nychymyg y cefnogwyr a'r ffyddloniaid sy'n dal i fynychu Parc Ninian.

Yr hyn sy'n drueni yw bod y clwb ar sawl achlysur y tymor hwn, yn enwedig mewn gemau cwpan yn erbyn Reading, wedi dangos dawn a'r awydd i chwarae'n dda. Ond cysondeb yw'r nod ac mae'n amlwg, mewn trydedd adran lle mae'r safon gyffredinol yn hynod o siomedig a thorcalonnus ar brydiau, fod rhywbeth mawr wedi bod o'i le a'u bod wedi gwneud eu gorau glas i guddio hynny.

***Ian Gwyn Hughes***

---

### Yr Wylfa Ieithoedd

Trefnir cyfarfod cyhoeddus gan yr Wylfa Ieithoedd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ddydd Mercher, 25 Mawrth, am 7 p.m. Pwnc y cyfarfod fydd 'Amlieithedd yng Nghymru a'r Byd'. Agorir y drafodaeth gan yr Athro Colin Williams, Llywydd y Gymdeithas.

### Oedfa Bedydd

Nos Sul, 8 Chwefror, cynhaliodd yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg ei hoedfa yng nghanolfan Gristnogol Minster. Y rheswm am y newid lleoliad oedd fod tri o bobl ifainc yr eglwys, Amanda Griffiths, Siôn Gwilym ac Eleri James, yn cael eu bedyddio. Roedd yn galondid ac yn hyfrydwch mawr gweld y tri yn tystio i'w ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist a daeth llu o ffrindiau a chysylltiadau ynghyd i gefnogi'r tri yn eu tystiolaeth.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

Croeso i rifyn mis Mawrth *Y Dinesydd*. Mae amser yn mynd mor gyflym! Mewn cwpl o fisoedd bydd eich cyrsiau Cymraeg wedi gorffen a bydd y tywydd yn braf unwaith eto (gobeithio !). Yn y cyfamser peidiwch ag anghofio mynd i'r Ysgolion Undydd a beth am fynd ar gwrs Cymraeg dros yr haf ? Mae llawer o ddewis erbyn hyn. Cysylltwch ag Aled Davies yn yr Uned Iaith Genedlaethol ar 01222 265007 am ragor o fanylion. Felly, yn hytrach na mynd ar wyliau 'Clwb 18-30' eleni a dawnsio trwy'r nos i'r 'Birdy Song' bwciwch eich gwyliau Cymraeg !

## CLWB HAMDDEN CYD

### Penwythnos Cerdded yn Sir Benfro

Bydd aelodau o Glwb Hamdden CYD yn ymweld â Chanolfan Pentre Ifan rhwng 20-22 Mawrth. Cost y cwrs yw £31 ( gwely/brecwast/pecyn cinio a swper ). Os hoffech wybod mwy ffoniwch Dafydd Vridle ar 01222 736600.

Fel mae'n digwydd, bydd Cymru yn chwarae rygbi yn erbyn Iwerddon ar y dydd Sadwrn, felly rwy'n siŵr bydd aelodau o'r Clwb Hamdden yn mwynhau prynhawn bach hamddenol iawn yn gwylio'r rygbi mewn tafarn yn rhywle.

## YSGOL UWCHRADD LLANISIEN A DATGANOLI

Hoffwn ddiolch i Jennifer Wildsmith, Lisa Pinnell, Glyn Tiltman, disgyblion Ysgol Uwchradd Llanisien a'u hathrawes Mrs Marian Sweet am anfon copïau o'u gwaith ardderchog a diddorol ataf yn ddiweddar. Mae'r tri disgybl uchod yn sefyll Cymraeg Safon Uwch yn y Gymraeg ac fel rhan o'u gwaith cwrs gwnaethon nhw ymchwil ar y Refferendwm. Mae'n braf gweld myfyrwyr yn defnyddio eu Cymraeg er mwyn edrych ar fywyd yng Nghymru a hoffwn longyfarch y tri ohonyn nhw am gynhyrchu gwaith mor dda. Pob lwc yn yr arholiadau hefyd!

## NOSON ARALL I YMARFER EICH CYMRAEG

Erbyn hyn mae cyfle arall i chi gymdeithasu yn y Gymraeg yng Nghaerdydd. Beth am fynd draw i dafarn y PEN & WIG ( Park Grove ) am 9.00 pm bob NOS LUN.
Ffoniwch Rhobat Bryn Jones yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg , 42 Ffordd y Parc, Caerdydd ar 01222 874710 am ragor o fanylion.

## CWRS LLANGRANNOG

Bydd cwrs preswyl Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn Llangrannog (17-19 Ebrill). Dyma gwrs sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr fyw mewn awyrgylch Gymraeg. Bydd gwersi i ddysgwyr o bob lefel, adloniant a llawer o hwyl i'r teulu i gyd. Os dych chi eisiau derbyn ffurflen cysylltwch â fi ar 01222 486469 neu 01970 624501.

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Bob Nos Lun**<br>9.00 ymlaen | Tafarn y Pen a Wig , Park Grove , Caerdydd.<br>Ffoniwch Rhobat Bryn Jones 01222 874710. |
| **Pob yn ail ddydd Mawrth**<br>12.30 - 2.00pm | Clwb Coffi y Fro, Coleg Cymunedol y Bont-faen.<br>Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Mercher**<br>12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd.<br>Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob nos Fercher**<br>9.00pm ymlaen | Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford, Y Rhath, Caerdydd.<br>Ffoniwch Gareth Kiff 01222 486469. |
| **Pob nos Iau**<br>9.00pm ymlaen | Lolfa Gwesty Parc y Rhath (*Roath Park Hotel*),<br>Heol y Plwca (*City Road*), Caerdydd. |
| **Pob bore Gwener**<br>9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Canolfan Palmerston.<br>Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |

Am ragor o fanylion am gyrsiau Cymraeg cysylltwch â Nigel Ruddock, Tiwtor Drefnydd Dysgu Cymraeg i Oedolion , Coleg Glan Hafren ar 01222 250439.

## Y Beirdd yn Brysur

Bu rhai o feirdd Caerdydd yn gynhyrchiol iawn yn ddiweddar. Cyhoeddwyd cyfrol arall o gerddi'r bardd crefftus a hydeiml, Gilbert Ruddock, o dan y teitl *Troad y Rhod*. Brodor o Gaerdydd yw Gilbert Ruddock, a ddysgodd Gymraeg yn Ysgol Cathays o dan yr athro ysbrydoledig W. C. Elvet Thomas, ac a fu hyd ei ymddeoliad yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yn y Brifysgol. Thema amlwg yn y gyfrol hon yw ymateb y bardd i dreigl amser a'r effaith a gaiff hynny arno ef a'i deulu.

Nid un gyfrol, ond dwy, a gyhoeddodd y Prifardd T. James Jones, Pontcanna – neu un a hanner i fod yn fanwl gywir! Casgliad o gerddi, ynghyd â drama fydryddol yn seiliedig ar hanes y dywysoges Nest, yw'r gyfrol *O Barc Nest*. Ffrwyth cydweithio rhyngddo a'r bardd Cymreig-Americanaidd, Jon Dressel, yw'r gyfrol arall, *Wyneb yn Wyneb: Face to Face* , cyfrol i ddathlu refferendwm 1997. Nid dyma'r tro cyntaf i'r ddau gydweithio, oherwydd lluniwyd y casgliad *Cerddi Ianws* ganddynt yn ymateb i'r bleidlais ar ddatganoli yn 1979.

## Cymdeithas Cynfyfyrwyr Aberystwyth

Daeth cynulleidfa luosog i Ysgol Howells nos Sant Ffolant i wrando ar Trevor Fishlock yn siarad am ei brofiadau wrth deithio byd, a chawsom gip fwy nag unwaith ar ei hoffter o Gymru a'i phobl. Cadeiriwyd y noson gan Menna Richards, HTV, ac un o lywyddion y dydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhen-y-bont. Cafwyd pryd bys a bawd blasus ar derfyn y ddarlith. Fel arfer, Dilys a Wynne Lloyd a drefnodd y cyfan, a hynny mor effeithlon ag arfer.

## Cantorion o Gaerdydd

Mae Gareth Potter o Gaerdydd yn un o'r perfformwyr ar gasgliad diweddaraf Label Crai, sef 'Crai Tecno 2'. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Rhys Mwyn, Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon LL54 5TG (01286-831111).

Yn ddiweddar hefyd lansiwyd albwm CD Llio Rhydderch o gerddoriaeth delyn draddodiadol Gymreig yn yr Eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Fflach Tradd., Llys-y-coed, Heol Dinbych-y-pysgod, Aberteifi SA43 3AH (01239-614691).

(< tud 1)

3) Dymunwn ddathlu llwyddiant a ffyniant y Gwyddyl a'u disgynyddion yng Nghymru ers blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

4) Dymunwn ddatgan ein diolchgarwch i Gymru am roi lloches a chartref i ni.

5) Dymunwn hyrwyddo cyfeillgarwch a dealltwriaeth rhwng Pabyddion a Phrotestaniaid, rhwng y Cymry o dras Gwyddelig a'r Cymry gwreiddiol, rhwng y Cymry Cymraeg a'u cymdogion sydd heb 'yr hen iaith', ac, mewn ystyr fras, rhwng Prydain ac Iwerddon.

Arweinydd y canu oedd Alun Guy, Pennaeth yr Adran Gerdd yn Ysgol Gyfun Glantaf, Caerdydd a'r Organydd oedd y Dr David Neville, Prifathro Coleg Catholig Sant Ioan, Llaneirwg, sydd hefyd yn 'Feistr y Gerddoriaeth' yn Eglwys Gadeiriol Gatholig Dewi Sant, Caerdydd.

Elfen arbennig fu cael dau gôr plant yn canu dau emyn yn yr Wyddeleg gyda'i gilydd. Bu Côr Plant Caerdydd a Chôr Plant Ysgol Gynradd Gatholig Padrig Sant, Grangetown, Caerdydd, yn cael eu tywys yn gytûn gan Mair Robins, Prifathrawes Ysgol Gynradd Gymraeg Melin Gruffydd, Caerdydd. Cafodd plant Padrig Sant eu hyfforddi gan Miss C. Barry, Prifathrawes eu hysgol.

Daeth y Gwir Barchedig Edwin Regan, Esgob Catholig Wrecsam, yr holl ffordd i fod yn rhan o'r gynulleidfa ac i roddi'r Fendith ar ddiwedd y Gwasanaeth.

Carwn ddatgan diolchgarwch i'r Parchedig Thomas Dunne, Offeiriad Plwyf St. Bridgid's, am ei groeso, a hefyd i Carys Whelan (Llywydd CYTUN), y Tad Ieuan Wyn Jones, y Parchedig Denzil John (Tabernacl, Caerdydd), Julia Burns a'r Parchedig Meurwyn Williams ('Intrada') am eu cyngor a'u cymorth wrth gynllunio'r darllediad hwn.

***Barry Tobin***



Côr Plant Ysgol St. Patrick gyda Miss Christina Barry (prifathrawes), Y Tad J. Fahy a'r Tad Ieuan Wyn Jones. *Llun: Robin Griffith*

**Aduniad Myfyrwyr y Coleg Normal 1965 - 1968**

Byddwn yn cyfarfod ar y penwythnos 11 - 13 Medi '98 yng Ngwesty'r Kinmel Manor, Abergele. Gellir cael mwy o wybodaeth a manylion archebu lle drwy gysylltu ag unrhyw un o'r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Jean Salisbury | (Rees Davies gynt) | 01745 590329 |
| Anna Davies | (Greenbank gynt) | 01352 710472 |
| Gareth Hughes | ('Dinbach') | 01745 583915 |
| Christine Hughes | (Carpenter gynt) | 01248 364727 |
| Merfyn Lloyd Jones | | 01352 755805 |

## Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru

Cyfarwyddwr Cerddorol presennol Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru yw Carlo Rizzi. Cafodd ei eni a'i fagu ym Milan. Mae e wedi priodi Cymraes ac y mae wedi dysgu Cymraeg. Mae dau o blant ganddynt a bydd e'n siarad Eidaleg a'i blant tra bod ei wraig yn siarad Cymraeg â nhw. Mae Carlo Rizzi yn ŵr prysur iawn ac ar wahân i'w waith gyda'r Cwmni Opera mae e'n arwain yn gyson yn Nhŷ Opera'r Metropolis yn Efrog Newydd yn ogystal â gweithio gyda Cherddorfeydd Symffoni dros y byd.

## Eisteddfod Gadeiriol Sain Ffagan

Eleni mae Amgueddfa Werin Cymru yn dathlu'i hanner canmlwyddiant. Fel rhan o'r dathliadau cynhelir Eisteddfod Gadeiriol, Sadwrn 21 Tachwedd, a'r gobaith yw y bydd cymdeithasau, ysgolion, eglwysi ac unigolion lawer yn cefnogi'r fenter newydd hon. Gellir cael rhestr o'r testunau gan Elaine Roszkowska neu Meinwen Ruddock, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd. CF5 6XB. Ffôn (01222) 573432.

Am y tro, dyma ragflas o rai o'r testunau llenyddol (y beirniad ac arweinydd yr Eisteddfod yw Islwyn Jones).

| | | |
|---|---|---|
| Cerdd y Gadair: | - | 'Amgueddfa Werin Cymru' |
| Soned, Cywydd neu gyfres o Englynion: | - | 'Iorwerth C Peate' neu 'Ffransis G Payne' |
| Triban neu Bennill: | - | Unrhyw Gymraes neu Gymro a anwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif. |
| Englyn: | - | 'Y Cynulliad Cymreig' |
| Pennill Beddargraff Doniol: | - | Unrhyw destun |
| Ysgrif: | - | 'Yr Etifeddiaeth' neu 'Atgofion am Sain Ffagan' |

## Casetiau i'r Deillion

Mae'r Cynllun Casetiau Cymraeg yn cynnig gwasanaeth 'llyfrau ar dâp' yn rhad ac am ddim i unrhyw un sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu yn rhannol ddall. Erbyn hyn y mae dros fil o lyfrau ar gael, yn ogystal â recordiadau o ddarlithiau, gwasanaethau crefyddol ac ambell gyngerdd. Am fanylion pellach, cysylltwch â: Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion, 1 Penlan, Caerfyrddin SA31 1DN (01267-238225).

## Teulu y tu allan i Gymru?


Mae'r Cyngor Llyfrau yn awyddus i gysylltu â theuluoedd sy'n byw y tu allan i Gymru a chanddynt blant Cymraeg eu hiaith rhwng 3 ac 11 oed, gyda'r bwriad o anfon manylion am lyfrau Cymraeg atynt yn rheolaidd. Anfonwch enw a chyfeiriad y plentyn ynghyd â'i oed at Delyth Humphreys, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB (01970-625385).

## Tapiau yn hel llwch?

Tybed a oes gennych unrhyw hen recordiadau neu gasetiau o ddiddordeb Cymreig yn hel llwch mewn rhyw gwpwrdd; neu efallai ffilmiau fideo neu riliau sain o ddigwyddiadau lleol neu genedlaethol yn llechu yn yr atig? Os felly, byddai'r Llyfrgell Genedlaethol yn falch o glywed oddi wrthych, gan y gallant, o bosibl, lenwi bwlch yng nghasgliad y Llyfrgell o ddeunydd sain a delweddau symudol. Cysylltwch â Dafydd Pritchard yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU (Ffôn: 01970-632828).

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU
## PENCOED ~ PEN-Y-BONT AR OGWR
## 1 - 8 Awst 1998

# Bro Ogwr



# CYNGHERDDAU'R HWYR

*Sadwrn:* Sioe'r plant "O Dan y Don"

*Sul:* Penblwydd Hapus Dennis O'Neill

*Llun:* CARYL - noson yng nghwmni Caryl Parry Jones

*Mawrth:* Offeren Requiem Verdi gydag unawdwyr o gystadleuaeth Canwr y Byd, Caerdydd

*Iau:* Parti Anti - Cyngerdd BBC Cymru

*Gwener:* Cerddorfa Ieuenctid Cymru



am fanylion pellach, cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod:

Gwybodaeth : 01656 659898 Tocynnau : 01656 657798

---

Gwasanaeth Cyfieithu

## PRYSG

Rydym yn chwilio am

## GYNORTHWY-YDD SWYDDFA

i'n swyddfeydd newydd yng nghanol Caerdydd.
Llawn amser neu oriau hyblyg i'w trafod.

Ffoniwch Nia Davies:
01446 - 775236

---

Angen

## CYNORTHWYWRAIG

sy'n siarad Cymraeg, i weithio yng

## Nghylch Meithrin Rhiwbeina

**BOB DYDD GWENER**

9.00 a.m. tan 12.00
i gychwyn *CYN GYNTED Â PHOSIB*

Ffoniwch y Cadeirydd Chris Jones . . . *NAWR*

**01222 - 76 46 50**

am fwy o fanylion

---

## J. A. HUGHES
## gyda
## REES WOOD
## a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222